

Sunday 21<sup>st</sup> April 2024

+ The Fourth Sunday of Easter

### The Collect of the Day

Almighty God, your Son Jesus Christ is the resurrection and the life: raise us, who trust in him, from the death of sin to the life of righteousness, that we may seek those things which are above, where he reigns with you in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

### The reading from Acts

(4.5-12)

The Jewish rulers, elders, and scribes assembled in Jerusalem, with Annas the high priest, Caiaphas, John, and Alexander, and all who were of the high-priestly family. When they had made the prisoners stand in their midst, they inquired, ‘By what power or by what name did you do this?’

Then Peter, filled with the Holy Spirit, said to them, ‘Rulers of the people and elders, if we are questioned today because of a good deed done to someone who was sick and are asked how this man has been healed, let it be known to all of you, and to all the people of Israel, that this man is standing before you in good health by the name of Jesus Christ of Nazareth, whom you crucified, whom God raised from the dead. This Jesus is “the stone that was rejected by you, the builders; it has become the

cornerstone.” There is salvation in no one else, for there is no other name under heaven given among mortals by which we must be saved.’

### The Psalm

(23)

The Lord is my shepherd therefore can I lack nothing. He makes me lie down in green pastures and leads me beside still waters. He shall refresh my soul and guide me in the paths of righteousness for his name’s sake.

Though I walk through the valley of the shadow of death, I will fear no evil for you are with me; your rod and your staff, they comfort me.

You spread a table before me in the presence of those who trouble me you have anointed my head with oil and my cup shall be full.

Surely goodness and loving mercy shall follow me all the days of my life and I will dwell in the house of the Lord for ever.

### The reading from 1 John

(3.16-24)

We know love by this, that he laid down his life for us – and we ought to lay down our lives for one another. How does God’s love abide in anyone who has the world’s goods and sees a brother or sister in need and yet refuses help?

Little children, let us love, not in word or speech, but in truth and action. And by this we will know

that we are from the truth and will reassure our hearts before him whenever our hearts condemn us; for God is greater than our hearts, and he knows everything. Beloved, if our hearts do not condemn us, we have boldness before God; and we receive from him whatever we ask, because we obey his commandments and do what pleases him.

And this is his commandment, that we should believe in the name of his Son Jesus Christ and love one another, just as he has commanded us. All who obey his commandments abide in him, and he abides in them. And by this we know that he abides in us, by the Spirit that he has given us.

### The reading from the Gospel of Christ according to Saintt John

(10.11-18)

Jesus said to the Pharisees: ‘I am the good shepherd. The good shepherd lays down his life for the sheep. The hired hand, who is not the shepherd and does not own the sheep, sees the wolf coming and leaves the sheep and runs away – and the wolf snatches them and scatters them. The hired hand runs away because a hired hand does not care for the sheep. I am the good shepherd. I know my own and my own know me, just as the Father knows me and I know the Father. And I lay down my life for the sheep.

‘I have other sheep that do not belong to this fold. I must bring them

also, and they will listen to my voice. So there will be one flock, one shepherd.

‘For this reason the Father loves me, because I lay down my life in order to take it up again. No one takes it from me, but I lay it down of my own accord. I have power to lay it down, and I have power to take it up again. I have received this command from my Father.’

### The Collect following Communion

Merciful Father, you gave your Son Jesus Christ to be the good shepherd, and in his love for us to lay down his life and rise again: keep us always under his protection, and give us grace to follow in his steps; through Jesus Christ our Lord. AMEN



Dydd Sul 21<sup>ain</sup> Ebrill 2024  
+ Pedwerydd Sul y Pasg

## Colect y Dydd

Hollalluog Dduw, dy Fab lesu Grist yw'r atgyfodiad a'r bywyd: cyfoda ni, sy'n ymddiried ynddo ef, o farwolaeth pechod i fywyd cyflawnder, fel y ceisiwn y pethau hynny sydd uchod lle y mae ef yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr a hyd byth. AMEN

## Darlleniad o Actau

(4.5-12)

Trannoeth bu cyfarfod o lywodraethwyr a henuriaid ac ysgrifenyddion yr Iddewon yn Jerwsalem. Yr oedd Annas yr archoffeiriad yno, a Caiaffas ac Ioan ac Alexander a phawb oedd o deulu archoffeiriadol. Rhoesant y carcharorion i sefyll gerbron, a dechrau eu holi, "Trwy ba nerth neu drwy ba enw y gwnaethoch chwi hyn?"

Yna, wedi ei lenwi â'r Ysbryd Glân, dywedodd Pedr wrthynt: "Lywodraethwyr y bobl, a henuriaid, os ydym ni heddiw yn cael ein croesholi am gymwynas i ddyn claf, a sut y mae wedi cael ei iacháu, bydded hysbys i chwi i gyd ac i holl bobl Israel mai trwy enw lesu Grist o Nasareth, a groeshoeliasoch chwi ac a gyfododd Duw oddi wrth y meirw, trwy ei enw ef y mae hwn yn sefyll ger eich bron yn iach. lesu yw 'Y maen a ddiystyrwyd gennych chwi

yr adeiladwyr, ac a ddaeth yn faen y gongl.' Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall, oblegid nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi i'r ddynolryw, y mae'n rhaid i ni gael ein hachub drwyddo."

## Salm

(23)

Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf. Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision, a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel, ac y mae ef yn fy adfywio. Fe'm harwain ar hyd llwybrau cyflawnder er mwyn ei enw.

Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du, nid ofnaf unrhyw niwed, oherwydd yr wyt ti gyda mi, a'th wialen a'th ffon yn fy nghysuro.

Yr wyt yn arlwoy bwrdd o'm blaen yng ngŵydd fy ngelynion; yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew; y mae fy nghwpan yn llawn.

Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd yn fy nilyn bob dydd o'm bywyd, a byddaf yn byw yn nhŷ'r Arglwydd weddill fy nyddiau.

## Darlleniad o I Ioan

(3.16-24)

Dyma sut yr ydym yn gwybod beth yw cariad: am iddo ef roi ei einioes drosom ni. Ac fe ddylem ninnau roi ein heinioes dros ein cydaelodau. Pwy bynnag sydd â meddiannau'r byd ganddo, ac yn gweld ei gydaelod mewn angen, ac eto'n cau ei galon yn ei erbyn, sut y mae cariad Duw yn aros ynddo?

Fy mhlant, gadewch inni garu, nid ar air nac ar dafod ond mewn gweithred a gwirionedd. Dyma sut y cawn wybod ein bod o'r gwirionedd, a sicrhau ein calonnau yn ei wydd ef pryd bynnag y bydd ein calon yn ein condemnio; oherwydd y mae Duw yn fwy na'n calon, ac y mae'n gwybod pob peth. Gyfeillion annwyl, os nad yw'n calon yn ein condemnio, y mae gennym hyder gerbron Duw, ac yr ydym yn derbyn ganddo ef bob dim yr ydym yn gofyn amdano, am ein bod yn cadw ei orchymnon ac yn gwneud y pethau sydd wrth ei fod.

Dyma ei orchymyn: ein bod i gredu yn enw ei Fab ef, lesu Grist, a charu'n gilydd, yn union fel y rhoddodd ef orchymyn inni. Y mae'r sawl sy'n cadw ei orchymnon ef yn aros ynddo ef, ac ef ynddo yntau. Dyma sut yr ydym yn gwybod ei fod ef yn aros ynom ni: trwy'r Ysbryd a roddodd ef inni.

## Gwrandewch Efengyl Crist

### yn ôl Sant Ioan

(10.11-18)

"Myfi yw'r bugail da. Y mae'r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid. Y mae'r gwas cyflog, nad yw'n fugail nac yn berchen y defaid, yn gweld y blaidd yn dod ac yn gadael y defaid ac yn ffoi; ac y mae'r blaidd yn eu hysglyfio ac yn eu gyrru ar chwâl. Y mae'n ffoi am mai gwas cyflog yw, ac am nad oes ofal arno am y defaid. Myfi yw'r bugail da; yr wyf yn adnabod fy nefaid, a'm defaid yn


f'adnabod i, yn union fel y mae'r Tad yn f'adnabod i, a minnau'n adnabod y Tad. Ac yr wyf yn rhoi fy einioes dros y defaid.

"Y mae gennyl ddefaid eraill hefyd, nad ydynt yn perthyn i'r gorlan hon. Rhaid imi ddod â'r rheini i mewn, ac fe wrandawant ar fy llais. Yna bydd un praidd ac un bugail.

"Y mae'r Tad yn fy ngharu i oherwydd fy mod yn rhoi fy einioes, i'w derbyn eilwaith. Nid yw neb yn ei dwyn oddi arnaf, ond myfi ohonof fy hun sy'n ei rhoi. Y mae gennyl hawl i'w rhoi, ac y mae gennyl hawl i'w derbyn eilwaith. Hyn a gefais yn orchymyn gan fy Nhad."

## Defynddir gweiddi ôl- ynghyd

Dad trugarog, rhoddaist dy Fab lesu Grist i fod yn fugail da, ac yn ei gariad tuag atom i roi ei einioes a chyfodi drachefn: cadw ni'n wastad dan ei adain, a dyro i ni ras i ddilyn ei lwybr; trwy lesu Grist ein Harglydd. AMEN



Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoedditaeth yr Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddiau Ôl-Gymru o'r llyfr Y Calendr Newydd a'r Colectau Hawlfraint Corff Cynrychiolwr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadur a Salmau trwy ganiatâd o'r Beibl Cymreig Newydd Diwsgiedig 2004

Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.